

**YMDDIRIEDOLAETH GYMUNEDOL FFERM WYNT TIR MOSTYN A FOEL GOCH  
[NANTGLYN]  
ARIAN GWYNT**

**CANLLAWIAU I YMGEISWYR**

**1 Y WEITHRED YMDDIRIEDOLAETH**

Wrth ddyfarnu grantiau rhaid i'r Ymddiriedolwyr wneud hynny'n unol ag amodau ac amcanion y Weithred Ymddiriedolaeth.

**2 BETH YDI'R AMODAU?**

- [i] Rhaid i unigolion a mudiadau sy'n gwneud ceisiadau fod yn byw yn neu fod wedi'u lleoli yn yr ardal ddaearyddol a weinyddir gan Gyngor Cymuned Nantglyn
- [ii] Dylid gwneud ceisiadau ar FFURFLEN GAIS ARIAN GWYNT, sydd i'w chael gan yr Ysgrifennydd - [ariangwynt@hotmail.co.uk](mailto:ariangwynt@hotmail.co.uk) – neu y gellir ei lawrlwytho oddi ar Wefan Gymunedol Nantglyn – <http://www.community-council.org.uk/nantglyn>
- [iii] Ni ellir rhoi cyllid i ymgyrchoedd a gweithgareddau sydd wedi'u targedu at neu'n niweidiol i Fferm Wynt Tir Mostyn neu i wrthwynebu datblygu a chodi ffermydd gwynt yn gyffredinol
- [iv] Rhaid i unrhyw brosiect neu weithgaredd sy'n derbyn cyllid gydnabod Fferm Wynt Tir Mostyn fel ffynhonnell y cyfryw arian
- [v] Ni fydd cyllid yn cael ei ddyfarnu i unrhyw gynnig neu weithgaredd sy'n debygol o gael ei wrthwynebu gan ran sylweddol o'r gymuned
- [vi] Ni fydd cyllid yn cael ei ddyfarnu i:
  - [a] Unrhyw brosiect neu weithgaredd y mae'i ddarparu yn ddyletswydd statudol i Gyngor Cymuned Nantglyn, Cyngor Sir Ddinbych neu unrhyw gorff llywodraeth
  - [b] Unrhyw fusnes preifat.
- [vii] Bydd cynigion o grant na chaiff eu cymryd o fewn 6 mis i ddyddiad y cynnig yn cael eu tynnu'n ôl.
- [viii] Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadw'r hawl i ofyn am fwy o fanylion am unrhyw gynnig cyn gwneud unrhyw benderfyniad. **DYLAI POB YMGEISYDD/CYNRYCHIOLYDD FYNYCHU'R CYFARFOD CYHOEDDUS Y MAE'U CAIS YN CAEL EI YSTYRIED YNDDO.**
- [ix] Ble mae'n briodol, mae angen **3 PHRIS AM WAITH** cyn y gellir ystyried unrhyw grant.
- [x] Ni ellir dyfarnu grantiau i brosiectau yn ôl-weithredol.
- [xi] Cyfrifoldeb yr ymgeisydd ydi gwneud yn siŵr i) y bydd unrhyw grant y gofynnir amdano yn werth da am yr arian a ii) bod taliadau i gontractwyr ond yn cael eu

gwneud unwaith y mae gwaith wedi'i orffen yn iawn i foddhad yr ymgeisydd.

### **3 BETH YDI AMCANION Y GRONFA?**

Mae'r Weithred Ymddiriedolaeth yn amodi bod cyllid i'w roi i "hyrwyddo neu wella" un neu fwy o'r canlynol - "lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol y gymuned".

Mae'r amcanion hyn yn fwriadol gyffredinol yn hytrach nag yn benodol gyda'r fantais fod y cyfle'n bodoli i unigolion a mudiadau chwilio amrywiaeth eang o brosiectau neu weithgareddau posibl.

### **4 PA FATH O BROSIECTAU NEU WEITHGAREDDAU A ALLAI FOD YN GYMWYS AR GYFER CYLLID?**

I helpu i ysgogi syniadau a thrafodaeth cynigiwn isod restr o brosiectau a gweithgareddau y mae cyrff tebyg wedi'u cefnogi mewn ardaloedd eraill. Nid ydi cynnwys unrhyw brosiect yn y rhestr i fod i awgrymu y bydd unrhyw geisiadau lleol o fath tebyg yn derbyn cyllid yn awtomatig. Ac, wrth gwrs, mae yna rif y gwlith o brosiectau posib eraill!

#### **Cymorth i Unigolion**

- ❖ Unrhyw Unigolyn sy'n dymuno gwella'u sgiliau personol, ar gyfer eu datblygiad personol eu hunain – mae unrhyw ddyfarniad yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr yn llwyr
- ❖ Cyfleusterau ieuenctid, corau ieuenctid, grwpiau cerdd, chwaraeon a dawns
- ❖ Prosiectau i helpu'r gymuned leol
- ❖ Datblygiad personol: cymorth gyda gwasanaeth tramor gwirfoddol neu brosiectau cenedlaethol tebyg; cymorth ar gyfer hyfforddiant arbennig/pellach; hyfforddiant mewn canolfannau rhagoriaeth ym maes chwaraeon neu ddiwylliant; dysgu o bell;
- ❖ Rhyw gymaint o gymorth i brynu llyfrau, meddalwedd ac offer ar gyfer addysg Bellach ac Uwch, neu ddatblygiad proffesiynol parhaus

#### **Cymorth i Deuluoedd**

- ❖ Offer a chyfleusterau ar gyfer Grwpiau Plant Bach
- ❖ Rhaglenni gweithgareddau gwyliau plant
- ❖ Rhyw gymaint o gymorth tuag at gost Gwersi Gyrru

#### **Cymorth i Fudiadau Cymunedol**

- ❖ Cymorth ar gyfer cynlluniau rhannu ceir
- ❖ Darparu a gwella cyfleusterau cymunedol ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau
- ❖ Cylchlythyrau a chalendr digwyddiadau cymunedol
- ❖ Digwyddiadau cymunedol
- ❖ Cymorth i fudiadau unigol yn cynnwys help gydag atgyweirio a gwella adeiladau a darparu offer a deunyddiau
- ❖ Cymorth ar gyfer pobl oedrannus y Gymuned

#### **Cymorth ar gyfer yr Amgylchedd**

- ❖ Plannu coed, arddangosfeydd blodau
- ❖ Ymgyrchoedd glanhau
- ❖ Blychau adar a llwybrau natur; cynnal cynefinoedd adar
- ❖ Prosiectau ysgolion yn yr amgylchfyd lleol

## Cymorth i'r Economi Leol

- ❖ Creu busnes cymunedol, nid er elw
- ❖ Cynlluniau i ddenu twristiaid
- ❖ Cymorth menter

## Datblygiad Diwylliannol, Adloniadol a Phersonol

- ❖ Cyfleusterau rhynggrwyd cymunedol
- ❖ Grwpiau hanes lleol ac archifau pentref
- ❖ Darlithoedd a gweithdai noddedig
- ❖ Chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol
- ❖ Celfyddydau, Crefftau, Cerddoriaeth neu weithgareddau diwylliannol eraill
- ❖ Rhyw gymaint o gymorth i brynu llyfrau ac offer ar gyfer addysg Bellach ac Uwch

## 5 GWNEUD Y CAIS

- [a] Bydd ceisiadau **ond** yn cael eu derbyn ar y ffurflen gais swyddogol, naill ai trwy ebost, y post neu drwy ddanfon â llaw
- [b] Byddir yn derbyn ceisiadau gan:
- ❖ Unigolion
  - ❖ Grŵp o bobl nad ydynt eto mewn grŵp ag iddo gyfansoddiad ffurfiol ond sy'n bwriadu dod yn grŵp o'r fath
  - ❖ Mudiad pentref sydd mewn bod
  - ❖ Un neu fwy o fudiadau pentref sy'n gwneud cais ar y cyd
- [c] Gellir gwneud ceisiadau am gyllid am flwyddyn neu am gyllid wedi'i ymestyn dros ddwy flynedd neu fwy, ond gall cyllid ond cael ei ddyfarnu am flwyddyn ar y tro.
- [ch] Gellir gwneud ceisiadau ar unrhyw adeg, ond byddant **OND YN CAEL EU HYSTYRIED DDWYWAITH Y FLWYDDYN GAN YR YMDDIRIEDOLWYR. Y DYDDIADAU CAU YDI HANNER NOS AR FAWRTH 31<sup>AIN</sup> A MEDI 30<sup>AIN</sup> BOB BLWYDDYN.**
- [d] **NI FYDD** ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad/amser cau a gyhoeddwyd yn cael eu hystyried tan y cylch nesaf.
- [dd] Gellir gofyn am ffurflenni cais -
- Trwy ebost at: [ariangwynt@hotmail.co.uk](mailto:ariangwynt@hotmail.co.uk) NEU: pamneal01@hotmail.com\_
  - Trwy ysgrifennu at yr Ysgrifennydd, Pamela Neal, Aberglyniau, Peniel, LL16 4TD

## 6 DYFARNU TALIADAU

- [a] Byddwch yn cael eich hysbysu'n ysgrifenedig ynghylch canlyniad eich cais
- [b] Mewn unrhyw flwyddyn, fe all cyfanswm y grantiau y gofynnir amdanynt fod yn fwy na'r cyfanswm grantiau sydd ar gael
- [c] Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadw'r hawl i ddal yn ôl gyfran o'r arian sydd ar gael yn unrhyw flwyddyn

[ch] Bydd arian a ddyfarnwyd ond sydd heb ei hawlio o fewn 6 mis i ddyddiad llythyr y Dyfarniad yn cael ei fforffedu.